**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Cydsyniad Seilwaith (Y Weithdrefn Cyn Gwneud Cais a'r Weithdrefn Gwneud Cais a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2025**

**Pwynt Craffu Technegol 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am nodi'r pwynt hwn. Mae adran 132(2) o Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") wedi ei chynnwys yn y rhaglith mewn camgymeriad. Mae adran 132(2) yn darparu pŵer i "addasu neu eithrio unrhyw ddeddfiad" yn ymwneud â cheisiadau gan y Goron. Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Rheoliadau sy'n dibynnu ar adran 132(2), felly camgymeriad yw cynnwys adran 132(2), ac mae'r Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

**Pwyntiau Craffu Technegol 2 a 3:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wneir. Bydd yr OS yn cael ei gywiro i ddefnyddio'r termau a ddiffinnir drwy offeryn diwygio cyn i'r offeryn ddod i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

**Pwynt Craffu Technegol 4:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a wneir. Mae'r diffiniad o "prosiect seilwaith arwyddocaol" yn adran 143 o Ddeddf 2024 yn nodi bod i'r term "yr ystyr a roddir gan Ran 1". Mae'r Rheoliadau hyn yn dilyn yr un trywydd ac felly nid ystyrir bod angen eglurhad pellach.

**Pwynt Craffu Technegol 5**: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt a godir gan y Pwyllgor. Mae rheoliad 10 yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau arfaethedig ar gyfer datblygiad yn ardal forol Cymru. Y rheswm dros ganiatáu disgresiwn i'r ceisydd ynghylch pa awdurdod cynllunio, cyngor cymuned, Aelod o'r Senedd ac Aelod o Dŷ'r Cyffredin ddylai gael eu hysbysu fel yr ystyrir yn briodol gan y ceisydd yw oherwydd na fydd corff/person cysylltiedig yn yr ardal forol. Yn dibynnu ar y datblygiad, gall fod effaith ar dir, a mater i'r ceisydd fydd nodi'r effaith bosibl, a phwy y dylid ei hysbysu.

**Pwynt Craffu Technegol 6:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt. Bydd yr OS yn cael ei ddiwygio i egluro'r pwynt hwn drwy offeryn diwygio cyn i'r offeryn ddod i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

**Pwyntiau Craffu Technegol 7-11:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau. Bydd yr OS yn cael ei ddiwygio i gywiro'r testun Cymraeg a dileu'r geiriau diangen drwy offeryn diwygio cyn i'r offeryn ddod i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

**Pwynt Craffu Technegol 12:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt ac yn cytuno y gallai rheoliad 26(3) fod yn gliriach. Bydd yr OS yn cael ei ddiwygio i ddarparu eglurhad ychwanegol drwy offeryn diwygio cyn i'r offeryn ddod i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

**Pwyntiau Craffu Technegol 13-20:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwyntiau a bydd yn diwygio'r OS i sicrhau cysondeb yn y testunau Cymraeg a

Saesneg, ac i gywiro'r croesgyfeiriadau perthnasol drwy offeryn diwygio cyn i'r offeryn ddod i rym ar 15 Rhagfyr 2025.

**Pwynt Craffu Technegol 21:** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt. Ystyrir ymhellach a oes budd i ddiwygio'r diffiniadau er mwyn bod yn gyson.

**Pwynt Craffu Technegol 22:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt a bydd yn diwygio'r OS i gywiro'r testun Cymraeg drwy offeryn diwygio cyn i'r offeryn ddod i rym ar 15 Rhagfyr 2025.